

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 11eg Ionawr, 2024 at 2.00
pm

CYNGHORWYR Cyngorydd Sirol A. Blackmore, (Cadeirydd)
YN Cyngorydd Sirol Tony Easson, (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

Lay Members: C. Prosser, M. Veale, R. Guest,

Cyngorydd Sirol: Sara Burch, John Crook, David Jones,
Malcolm Lane, Phil Murphy, Peter Strong and Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jan Furtek	Audit Manager
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democraidd
Richard Jones	Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Rachel Freitag	Swyddog Archwilio Cymru

YMDDIHEURIADAU:

Dim.

1. Datganiadau o Fuddiant

Eitem 7 – Strategaeth Rheoli Asedau: Roedd y Cyngorydd Sir Easson wedi datgan buddiant nad yw'n rhagfarnu fel aelod o Gyngor Tref Cil-y-coed sydd â swit swyddfeydd ym Mharc Busnes Castlegate.

Eitemau5/6 – Datganiad Cyfrifon – cronfeydd ymddiriedolaeth elusennol (Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy): Roedd yr Aelod Lleyg Martin Veale wedi datgan buddiant nad yw'n rhagfarnu fel llywodraethwr yng Ngholeg Gwent, yr endid cyfreithiol sy'n gyfrifol am Goleg Amaethyddol Brynbuga.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Dim.

3. Nodi'r Rhestr o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

<https://www.youtube.com/live/31MMsls9pPU?si=-naiXSeHb9ppgRI0&t=74>

1. Capasiti'r Tîm Cyllid: AGORED
2. a) Strategaeth Pobl: AGORED
b) Strategaeth Rheoli Asedau: AR GAU

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 11eg Ionawr, 2024 at 2.00
pm**

3. Adroddiad Cwynion Awdurdod Cyfan: AGORED
4. Rhyddid Gwybodaeth, Diogelu Data a Cheisiadau Mynediad Gwrthrych Data:
 - a) Trefniadau Llywodraethu Polisi Rhyddid Gwybodaeth, Diogelu Data a Chais Gwrthrych am Wybodaeth: AR GAU
 - b) Polisiâu rheoli risg corfforaethol: AGORED
5. Polisi Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo: AR GAU
6. RIPA (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000): AR GAU

4. Datganiad Cyfrifon - cronfeydd ymddiriedolaeth elusennol

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer Cronfeydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol, a chyflwynodd Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru yr ISA260. Wrth wneud hynny, cydnabuwyd gwaith a chydweithrediad y Tîm Cyllid a swyddogion Archwilio Cymru. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiadau, gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

<https://www.youtube.com/live/31MMsls9pPU?si=qmFsgzfwGqnxBnt&t=406>

Cytunwyd ar yr argymhellion, a chytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd lofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth:

- 1.1 Bod datganiad o gyfrifon archwiliedig 2022/23 ar gyfer Cronfa'r Eglwys yng Nghymru (**Atodiad 1**) yn cael ei gymeradwyo ar y cyd ag adroddiad Archwilio Cymru ISA260 ar yr Archwiliad o Gyfrifon ar gyfer Cronfa'r Degwm.
- 1.2 Bod y datganiadau ariannol a archwiliwyd yn annibynnol ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgolion Fferm Sir Fynwy ar gyfer 2022/23 (**Atodiad 2**) yn cael eu cymeradwyo ar y cyd â'r Adroddiad Arholiad Annibynnol ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgolion Fferm Sir Fynwy.

CAM GWEITHREDU: Gan gwestiynu effeithiolrwydd Cronfa'r Eglwys yng Nghymru, gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor am wybodaeth am gyfran y grantiau a delir o'r gronfa ar gyfer lleddfau tlodi. Bydd y Pennaeth Cyllid yn rhannu ymateb y tu allan i'r cyfarfod.

5. ISA260 ar gyfer cronfeydd ymddiriedolaeth

Ystyriwyd yr eitem hon ar yr un pryd â'r eitem flaenorol.

6. Strategaeth Rheoli Asedau

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu, Ystadau a Chynaliadwyedd y Strategaeth Rheoli Asedau. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

<https://www.youtube.com/live/31MMsls9pPU?si=OTTUE0vKONuKw92U&t=925>

Yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad, y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit

1. cynnal craffu cyn gwneud penderfyniad ar y Strategaeth Rheoli Asedau a pholisïau cysylltiedig: a

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 11eg Ionawr, 2024 at 2.00 pm

2. argymhell cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Asedau i'r Cyngor Llawn.

7. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit

Nodwyd y Cynllun Gwaith i'r Dyfodol.

<https://www.youtube.com/live/31MMsls9pPU?si=CTrQwRu0MfEHkkKh&t=2746>

8. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

<https://www.youtube.com/live/31MMsls9pPU?si=CTrQwRu0MfEHkkKh&t=2746>

9. Adolygiad Perfformiad Blynyddol y Pwyllgor Buddsoddi

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Prif Swyddog Adnoddau yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol o'r Pwyllgor Buddsoddi. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

<https://www.youtube.com/live/31MMsls9pPU?si=yPTyO4HDLWcrb8x9&t=2948>

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, mae'r Pwyllgor:

1. wedi derbyn diweddariad llafar yn y cyfarfod ar ôl ystyried y newidiadau llywodraethu arfaethedig i'r Pwyllgor Buddsoddi yn ei gyfarfod ar 9fed Ionawr 2024.
2. wedi ystyried a chraffu ar y trefniadau llywodraethu diwygiedig, arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi Buddsoddi Asedau diwygiedig (atodiad 1) ac a grynhoir yn adran 4 o'r adroddiad hwn, a chymeradwyo newidiadau o'r fath sy'n cael eu cynnig i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 18fed Ionawr 2024.
3. wedi derbyn diweddariad perfformiad ar bortffolio eiddo masnachol a buddsoddi'r Cyngor, yn dilyn diweddariad a ystyriwyd gan y Pwyllgor Buddsoddi ar 28ain Tachwedd 2023.

10. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 22ain Chwefror 2024

Gorffennodd y cyfarfod am 3.15 pm